RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

# Polisi Gwrth-dwyll, Camymarfer, a Chamweinyddu



Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

Mae CITB wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Paratowyd y pecyn hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd pellach gan CITB ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant cymeradwy yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gael unrhyw fantais neu elw.

## 1. Cyflwyniad

Nod y polisi hwn yw diogelu uniondeb, dibynadwyedd ac enw da Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB a'r cynnyrch cysylltiedig.

- Mae'r polisi hwn yn ymwneud â darpariaeth, gweinyddiaeth, staff a chynrychiolwyr y darparwyr hyfforddiant.
- Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses ar gyfer adrodd ac ymchwilio.
- Mae'r ddogfen hon yn ymhelaethu ar Delerau Safonol Darparwyr Hyfforddiant, a'r Llawlyfr i Ddarparwyr Hyfforddiant.

## 2. Cwmpas y polisi

- Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant; Telerau safonol a Thelerau atodol.
- Canllawiau CITB – Llawlyfr i Ddarparwyr Hyfforddiant.
- Rheolau Cynllun SSP ac ITC a Gofynion Sicrhau Ansawdd.
- Cynnyrch a ariennir gan CITB.

## 3. Nodau ac amcanion y polisi

Mae'r polisi'n nodi'r broses y mae'n rhaid i unigolyn neu sefydliad ei dilyn i roi gwybod am achosion o gamymarfer, camweinyddu a thwyll honedig (gan gynnwys llwgrwobrwyo). Mae'r polisi'n nodi sut y dylid rhoi gwybod am achosion honedig, a'r amserlenni a ddefnyddir gan CITB i ymchwilio iddynt a gweithredu ar ei ganfyddiadau. Bydd y polisi hefyd yn nodi sut y bydd CITB yn delio ag achosion honedig lle mae'r honiadau wedi'u profi.

## 4. Mynediad at y polisi

Bydd CITB yn cyhoeddi'r polisi ar ei wefan https://www.citb.co.uk/cy-gb/ ac yn gwneud yn siŵr bod y polisi’n cael ei gyfathrebu ac yn cael ei ddeall gan staff y ganolfan drwy ei dîm o Uwch Ymgynghorwyr Ansawdd.  Bydd y tîm o Uwch Ymgynghorwyr Ansawdd, drwy'r ymweliadau monitro a drefnir, yn egluro'r polisi i staff darparwyr hyfforddiant ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r polisi. Gellir cael canllawiau ychwanegol yn ganolog gan dîm Sicrhau Ansawdd CITB hefyd.

## 5. Diffiniadau

Mae camymarfer/camweinyddu yn weithred fwriadol, anfwriadol neu ddi-hid gan unigolyn neu fusnes er mwyn hawlio cyllid, deilliannau dysgu, cyflawniadau a/neu dystysgrifau ar gyfer cynrychiolwyr yn anonest. Ar ben hynny, mae camymarfer/camweinyddu yn weithred nad yw'n cydymffurfio ag amodau CITB nac awdurdod rheoleiddio ac mae'n codi amheuaeth ynghylch dilysrwydd, dibynadwyedd ac uniondeb canlyniadau, cyflawniadau neu gymwysterau.

Mae twyll yn weithgarwch troseddol a ddiffinnir fel gweithred o ddichell a fwriedir er budd personol neu i achosi colled i unigolyn neu barti arall. Gall hyn gynnwys dwyn, camddefnyddio arian neu adnoddau, methu â datgelu gwybodaeth, ymhoniad anwir, neu gamfanteisio ar sefyllfa o ymddiriedaeth.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r term "twyll" yn cael ei ddefnyddio hefyd i ddisgrifio gweithredoedd fel dichell, llwgrwobrwyo, ffugio, cribddeilio, llygredigaeth, cynllwynio, embeslu, camddefnyddio, gwyngalchu arian a chydgynllwynio. Gall twyll effeithio ar unigolion, busnesau, elusennau, y trysorlys neu ddiwydiant.

Llygredigaeth yw camddefnyddio grym a ymddiriedir er budd personol. Gall hyn gynnwys dylanwadu ar barti yn gyfnewid am wobr neu addewid neu ddisgwyliad o wobr er mwyn defnyddio ei safle yn afresymol i gael mantais i rywun arall. Yn y cyd-destun hwn, nid oes angen i wobr fod yn ariannol.

Gall enghreifftiau o gamymarfer/camweinyddu/twyll gynnwys y canlynol, a mwy.

### Camymarfer/camweinyddu/twyll gan gynrychiolydd.

- Twyllo.
- Llên-ladrad yng nghyswllt gwaith.
- Ffugio tystiolaeth ymgeisydd/cynrychiolydd.
- Ffugio llofnodion.
- Gorfodaeth.
- Personadu.

### Camymarfer/camweinyddu/twyll gan ddarparwr hyfforddiant

- Methu â dilyn gofynion CITB ar gyfer cymeradwyaeth darparwyr gan gynnwys cynlluniau gweithredu.
- Methu â chaniatáu i Uwch Ymgynghorydd Ansawdd neu reoleiddiwr awdurdodedig gael mynediad at ganolfan, cofnodion neu gynrychiolwyr ar gais heb reswm da.
- Hyfforddwyr, aseswyr a staff sicrhau ansawdd anghymwys yn hawlio deilliannau dysgu, cyflawniadau, tystysgrifau neu gyllid.
- Hawliadau twyllodrus am dystysgrifau neu gwblhau cyrsiau gyda/heb gysylltiadau â chyllid CITB.
- Diffyg Systemau Rheoli Ansawdd fel sy'n ofynnol gan CITB.
- Methu â dilyn canllawiau goruchwylio neu ofynion eraill a osodir yn allanol gan CITB/Sefydliadau Dyfarnu/rheoleiddwyr ac ati.
- Methu â mewnbynnu gwybodaeth am ymgeiswyr/cynrychiolwyr yn brydlon neu roi manylion anghywir yn fwriadol ar systemau CITB.
- Llwytho gwybodaeth i fyny'n anghywir ar systemau CITB.
- Rhannu cyfrineiriau cyfrinachol ar gyfer systemau CITB h.y. Cofrestr Hyfforddiant Adeiladu, porth CITB, ac ati.

Camymarfer, camweinyddu a thwyll gan staff

- Rhoi (rhith) gynrychiolwyr ychwanegol ar gyflawniadau'r cwrs.
- Ffugio neu ymyrryd ag asesiadau a chofnodion hyfforddi.
- Ffugio llofnodion.
- Ffugio neu ymyrryd â thystiolaeth cynrychiolydd.
- Methu â dilyn camau a nodir gan CITB neu (sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â chymeradwyo categorïau cydnabyddedig).
- Gwneud hawliadau anwir neu gamarweiniol am gymorth ariannol CITB.

## 6. Proses adrodd

Mae'n ddyletswydd ar unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses darparu hyfforddiant ar gyfer Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB y tynnwyd ei sylw at achos honedig o gamymarfer/camweinyddu/twyll i roi gwybod i CITB amdano. Gwneir pob ymdrech resymol i ddiogelu manylion adnabod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad.

Bydd CITB yn derbyn unrhyw adroddiad, e-bost neu lythyr ysgrifenedig sy'n nodi manylion y camymarfer/camweinyddu neu dwyll honedig. Rhaid i'r ohebiaeth fod yn ddigon manwl i alluogi dechrau ymchwilio i’r mater. Mae gan CITB ei gyfeiriad e-bost ei hun ar gyfer twyll hefyd – report.it@citb.co.uk.

Sicrhewch fod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chynnwys mewn unrhyw ohebiaeth:

- Enw, Cyfeiriad a Rhif y Darparwr
- Enw, Swydd a Chyfeiriad y Sawl sy'n Adrodd (os yw'n wahanol i'r uchod)
- Enw(au) yr Ymgeisydd/Cynrychiolydd a Rhif(au) y rhai yr effeithir arnynt neu sy'n gysylltiedig â’r mater
- Yr unigolion sy’n ymwneud â’r mater
- Manylion y Rhaglen (Cymhwyster dan sylw)
- Manylion yr honiad gan gynnwys Dyddiadau, Amseroedd a Lleoliadau.

## 7. Proses Adrodd – Cymwysterau Cydnabyddedig

Ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu drwy Sefydliadau Dyfarnu eraill, mae'n rhaid i'r ganolfan ddilyn y polisi Camymarfer/Camweinyddu perthnasol (fel y nodir gan y Sefydliad Dyfarnu).

Mae'n ofynnol i ddarparwyr hyfforddiant roi gwybod i CITB am unrhyw achosion o gamymarfer/camweinyddu/twyll honedig fel rhan o'r statws cymeradwyo parhaus, gan gynnwys ymchwiliadau sefydliadau trydydd parti eraill, ni waeth beth yw'r canlyniad. Gallai methu â gwneud hynny effeithio ar y statws cymeradwyo parhaus os na wneir adroddiad a bod CITB wedyn yn darganfod camymarfer/camweinyddu/twyll.

Mae CITB yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau rhesymol i ddiogelu buddiannau cynrychiolwyr a chyflogwyr.

## 8. Y broses ymchwilio

Ar ôl i’r honiad o gamymarfer/camweinyddu/twyll ddod i law, bydd CITB yn cadarnhau ei fod wedi'i dderbyn yn ysgrifenedig ac yn nodi manylion y broses ar gyfer ymchwilio i'r honiad o fewn 10 diwrnod gwaith.

Bydd y darparwr yn cael ei atal dros dro pan ddaw’r honiad i law. Bwriedir i’r weithred hon fod yn niwtral a diogelu uniondeb yr ymchwiliad ac enw da'r cynnyrch.

Mae'n ofynnol i'r darparwr hyfforddiant roi gwybod i hyfforddwyr cofrestredig ynglŷn ag unrhyw newidiadau i statws y darparwr hyfforddiant, gan gynnwys atal dros dro a therfynu.

Bydd yr ymchwilwyr yn cynnal yr ymchwiliad o bell pan fydd hynny'n ymarferol, ac fe ddaw’r broses i ben o fewn 28 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, os bydd angen ymgymryd â rhagor o ymholiadau, yna gwneir trefniadau i ymweld â'r ganolfan a chynnal cyfweliadau â'r bobl dan sylw.

Byddwn yn anelu at gwblhau’r ymchwiliad cyn pen 40 diwrnod gwaith lle bo modd. Fodd bynnag, gall yr ymchwiliad gymryd mwy o amser o bryd i’w gilydd. Mae CITB yn cadw'r hawl i ymestyn yr amser a gymerir i gwblhau ymchwiliad er mwyn sicrhau bod modd cymryd camau trylwyr a phriodol.

Yn dilyn yr ymchwiliad, byddwn yn rhoi manylion y canlyniad yn ysgrifenedig i enw cyswllt CITB yn sefydliad y darparwr ynghyd ag unrhyw gamau unioni sy’n angenrheidiol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei anfon cyn pen 5 diwrnod gwaith i gwblhau’r ymchwiliad.

Disgwylir i bob parti sy'n cymryd rhan yn y broses ymchwilio gydweithredu â staff CITB. Gall peidio â chydweithredu ar unrhyw gam o’r broses ymchwilio arwain at derfynu’r cytundeb darparwyr. Pan fo'n berthnasol, bydd sefydliadau trydydd parti yn cael gwybod am amheuaeth o gamymarfer/camweinyddu/twyll.

O bryd i'w gilydd, bydd angen darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Bydd CITB yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen, y fformat, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol.

Mae CITB yn cadw'r hawl i gyfweld unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses gyflawni, gan gynnwys cynrychiolwyr a allai ddarparu tystiolaeth am y camymarfer/camweinyddu/twyll honedig. Os oes angen ymweliad ar gyfer yr ymchwiliad, bydd hyn yn cael ei drefnu. Fel arfer, bydd gan y dyddiad a roddir i'r darparwr hyfforddiant amser arwain byr.

Bydd CITB yn defnyddio ei staff sy'n deall y darparwr hyfforddiant i arwain; fodd bynnag, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal gan aelod annibynnol a diduedd o staff CITB. Rhoddir enw’r ymchwilwyr i’r darparwr hyfforddiant cyn yr ymchwiliad. Cyfrifoldeb y ganolfan yw rhoi gwybod i CITB yn ysgrifenedig os oes gwrthdaro rhwng buddiannau cyn i’r ymchwiliad ddechrau.

## 9. Canfyddiadau'r ymchwiliad

Bydd CITB yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwiliad. Bydd CITB yn arfer diwydrwydd dyladwy wrth ffurfioli ei benderfyniad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad.

Ar gyfer camymarfer/camweinyddu/twyll gan gynrychiolwyr a/neu ddarparwyr hyfforddiant, bydd canlyniad CITB yn cael ei gyflwyno i gynrychiolydd awdurdodedig (neu gyswllt a enwir) y darparwr hyfforddiant, naill ai wyneb yn wyneb neu mewn llythyr ysgrifenedig. Bydd cynrychiolydd (neu gyswllt a enwir) y darparwr hyfforddiant yn ymwneud â’r gwaith o osod y cynllun gweithredu cyn ei roi ar waith lle bo hynny’n briodol. Bydd adran sicrhau ansawdd CITB yn rhoi arweiniad ar y cynllun gweithredu ac ar sut i ddiwallu unrhyw bwyntiau penodol, yn ôl yr angen.

Mae CITB yn cadw'r hawl i beidio â datgelu gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, e.e. manylion unrhyw gwynion gan chwythwr chwiban, lle gallai'r wybodaeth fod yn niweidiol i waith pellach, ac ni fydd yn darparu gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad nac yn datgelu’r tactegau a ddefnyddiwyd. Mae hyn er mwyn diogelu uniondeb yr ymchwiliad a’r ffynonellau gwybodaeth.

## 10. Camymarfer/camweinyddu gan ddarparwr hyfforddiant

Os canfuwyd camymarfer/camweinyddu/twyll yn sefydliad y darparwr hyfforddiant a/neu unrhyw un a gyflogir gan y darparwr hyfforddiant, bydd y camau a gymerir yn unol â thelerau safonol cyhoeddedig CITB. Bydd CITB yn gweithio gyda'r darparwr hyfforddiant i sicrhau bod camau unioni'n cael eu dilyn fel y bo'n berthnasol.

## 11. Camymarfer/camweinyddu gan ymgeisydd

Os yw'r camymarfer/camweinyddu yn cael ei wneud gan gynrychiolydd/cynrychiolwyr, gellir tynnu'r unigolyn/unigolion oddi ar y rhaglen hyfforddiant a thynnu ei gyflawniad oddi ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu (os rhestrir ei fod wedi'i gyflawni). Bydd y darparwr hyfforddiant yn cael cynllun gweithredu i atal achosion pellach o gamymarfer/camweinyddu/twyll gan gynrychiolwyr. Gellir ystyried hyn o hyd fel methiant yn systemau rheoli'r darparwyr hyfforddiant.

Bydd CITB yn rhoi gwybod i unrhyw awdurdodau rheoleiddio perthnasol am yr ymchwiliad, y canfyddiadau a'r casgliad. Yn unol â hyn, bydd CITB yn dileu cyflawniadau i ddiogelu uniondeb y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu os bydd angen.

## 12. Apeliadau

Os nad ydych chi’n cytuno â chanfyddiadau’r ymchwiliad, gallwch apelio. Mae gan CITB weithdrefn apelio y mae'n rhaid ei dilyn ac mae ar gael ar wefan CITB. Rhaid cyflwyno’r apêl i’r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio o fewn 10 diwrnod gwaith i'r ohebiaeth ddyddiedig. Mae rhagor o ganllawiau ar y weithdrefn apelio hefyd ar gael yn llawlyfr rhwydwaith darparwyr hyfforddiant CITB a'r polisi apelio.

Mae CITB yn cadw'r hawl i gyhoeddi unrhyw ganlyniadau ffurfiol yn dilyn ymchwiliad ac ar ôl i unrhyw broses apelio ddod i ben.

## 13. Adennill costau

Yn unol â'r telerau safonol, bydd CITB yn ceisio adennill costau unrhyw ymchwiliad ar ôl i unrhyw gyfnod apelio ddod i ben, gan gynnwys costau ailbrofi, hyfforddi neu asesu unrhyw gynrychiolwyr yr effeithir arnynt.